# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1234(SJL) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 8 Mehefin 2010

### At Mohammad Asghar:

Yn ystod y cwestiynau llafar i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 26 Mai, fe ofynnoch ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda chlymblaid newydd Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig mewn perthynas â phrisio a threthu. Gan fod y mater hwn yn dod o fewn cwmpas fy mhortffolio i, gallaf fi ateb eich cwestiwn.

Hoffwn eich cyfeirio at y datganiad a wneuthum yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 27 Ebrill 2010 sy'n mynd i'r afael â phob un o'r materion a godwyd gennych. Hefyd, rwyf wedi ysgrifennu at Andrew Lansley AS, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Iechyd, yn amlinellu sefyllfa Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran rheoli gwerthu, prisio, hyrwyddo a hysbysebu alcohol fel y'i hamlinellir yn ein strategaeth 10 mlynedd ar gamddefnyddio sylweddau.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl fer a gyhoeddwyd gan Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, ar 14 Mehefin 2010

### At David Melding:

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am godi'r mater yn ymwneud â chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn y ddadl fer a gynhaliwyd ar 26 Mai. Fel y dywedais, mae angen inni drafod llawer mwy ar y mater hwn.

Fe ofynnoch i ni ystyried pennu targedau fel bod plant sy'n derbyn gofal yn llwyddo i gael 5 TGAU gradd A* i C er mwyn pwysleisio ein bod ni yma yng Nghymru yn cymryd cyflawniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ddifrifol iawn.

Byddaf yn gofyn i swyddogion APADGOS edrych ar y mater hwn unwaith yn rhagor ond oherwydd bod nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn cohort awdurdod lleol unigol mewn blwyddyn benodol yn isel, mae'n fater cymhleth. Gall y ffigur hwn fod cyn lleied â 4 neu 5 ar gyfer yr awdurdod lleiaf mewn blwyddyn benodol sy'n golygu y byddai un disgybl yn gwneud gwahaniaeth o 20-25% i'r ffigur cyffredinol. Hefyd, fel y gwyddoch, mae Anghenion Addysgol Arbennig plant sy'n derbyn gofal, ar y cyfan, yn uwch na'u cyd-fyfyrwyr felly mae'n debygol iawn na fyddai'n realistig disgwyl i rai dysgwyr ymhob cohort lwyddo i gael 5 TGAU gradd A* i C.

Oherwydd hyn, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rhoi sylw i anghenion a photensial plant sy'n derbyn gofal fel unigolion. Wrth wneud hyn, dylai'r awdurdodau ystyried potensial y disgyblion hyn a pha gefnogaeth benodol sydd ei hangen arnynt fel eu bod yn gallu cyrraedd y potensial hwn; gellir defnyddio cronfeydd ariannol fel Rhagori i gynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal, os yw hynny'n briodol. Fel rydych yn dweud, wrth ystyried potensial y plant hyn, mae'n bwysig bod yr awdurdodau'n nodi pa mor dda y maent yn disgwyl y bydd y plant hyn yn llwyddo yn eu harholiadau a gosod y lefel llwyddiant hwn mor uchel ag sy'n bosibl. Aethom ati i gyhoeddi adroddiad interim ynghylch effeithiolrwydd y grant Rhagori ers iddo gael ei sefydlu a dengys yr adroddiad, hyd yn oed os oes gan blant sy'n derbyn gofal anghenion addysgol arbennig, ni ddylid defnyddio'r ffaith hon fel rheswm pendant pam nad yw'r plentyn yn cyflawni ei

botensial oherwydd roedd canlyniadau arholiadau disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig ar draws awdurdodau Cymru yn amrywio'n fawr.

Anhawster arall i awdurdodau lleol gyda phennu targedau yw bod plant yn dod i ofal ac yn gadael gofal trwy gydol y flwyddyn academaidd ac felly mae'r grŵp o blant a dargedir yn debygol o newid yn ystod y flwyddyn academaidd. Felly, mae'r proffil academaidd ar gyfer y boblogaeth hon yn amrywio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ac o un flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, dros y tair blynedd academaidd ddiwethaf, dengys ystadegau ar blant sy'n derbyn gofal un awdurdod lleol bod eu gallu i ennill un TGAU gradd A* i C yn amrywio rhwng 30%, 100% a 44%.

Er bod anawsterau'n codi wrth bennu targedau penodol ar gyfer awdurdodau lleol, nid yw hyn yn golygu na ddylem drafod eu canlyniadau a'u cynorthwyo yn ogystal â'u herio i wneud gwelliannau. Mae swyddogion APADGOS yn gwneud hyn ar hyn o bryd – maent yn ymweld â phob un o'r awdurdodau lleol i drafod eu canlyniadau dros y blynyddoedd diwethaf a sut maent wedi mynd ati i ddefnyddio grant Rhagori i gynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal..

Gyda'r cafeatau hyn, byddaf yn gofyn i'm swyddogion edrych unwaith eto ar y posibilrwydd o bennu'r targedau hyn. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallwn ystyried defnyddio cyfartaleddau dros gyfnod treigl o 3 blynedd er mwyn mynd i'r afael â'r niferoedd llai. Fel arall, efallai y byddai'n well sefydlu proses adolygu reolaidd er mwyn gweld sut mae pob awdurdod lleol yn perfformio yn y maes hwn.

Yn ail, fe gyfeirioch chi at nifer o faterion yn ymwneud â rhai sy'n gadael gofal mewn addysg uwch, yn enwedig derbyniadau, casglu data, tracio a monitro a pha mor dda mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ymdopi fel dysgwyr, gweithwyr a dinasyddion. Un mater y mae'n rhaid i sefydliadau addysg uwch ei ystyried yw a yw'r ymgeiswyr wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer addysg lefel uwch, a oes ganddynt y cymwysterau priodol ac a ydynt yn ymwybodol o'r holl gyfleodd dysgu sydd ar gael ar lefel uwch. Yn aml, mae bylchau mewn addysg rhai sy'n gadael gofal ac fe derfir ar eu bywydau personol. Mae prifysgolion a cholegau'n cydnabod hyn ac maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau arloesol, gan gynnwys mentora rhai sy'n gadael gofal, trefnu ymweliadau â sefydliadau Addysg Uwch a digwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth fel bo modd gwella sgiliau addysgol rhai sy'n gadael gofal a rhoi cefnogaeth i'w gofalwyr a'u hysgolion i annog yr unigolion hyn i ddatblygu i addysg uwch, yn aml trwy addysg bellach neu lwybrau dysgu eraill.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn annog sefydliadau addysg uwch i ystyried anghenion dysgu rhai sy'n gadael gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Fel imi grybwyll yn y ddadl fer, mae 100% (pob un o'r 11) o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru wedi llwyddo i gael Marc Safon Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Rhai sy'n Gadael Gofal mewn Addysg Uwch sy'n sefyllfa llawer mwy cadarnhaol na nifer y Sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr a'r Alban sydd wedi llwyddo i gael Marc Safon yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, mae gan y Sefydliadau Addysg Uwch fwrsariaethau sydd wedi'u sefydlu'n arbennig ar gyfer rhai sy'n gadael gofal ac maent hefyd yn rhoi blaenoriaeth i rai sy'n gadael gofal ar gyfer cymorth ariannol arall, fel hepgor ffioedd.

Hoffwn egluro y cyflwynodd CCAUC, ddiwedd mis Mai, ei gynlluniau arfaethedig ar gyfer cyflawni disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad fel y'u hamlinellir yn ein strategaeth addysg uwch newydd Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain (Tachwedd 2009) i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae Strategaeth Gorfforaethol ddrafft newydd CCAUC o 2010 ymlaen, sy'n llunio rhan o'r cynllun gweithredu, yn diffinio pwrpas ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn 'sicrhau cydraddoldeb, cyfleoedd a llwyddiant o fewn addysg uwch'. Yng nghyfnod y strategaeth newydd hon ac i ddiwallu'r disgwyliadau yn y ddogfen Er Mwyn ein Dyfodol, bydd CCAUC yn parhau i fonitro'r amrywiaeth o ddangosyddion ehangu mynediad a'r data

sydd ar gael, gan gynnwys manylion am rai sy'n gadael gofal sy'n gwneud cais ac yn cael eu derbyn i Sefydliadau Addysg Uwch.

Yn y cyfamser, rwy'n amgáu cylchlythyr CCAUC ar gynnydd sefydliadau addysg uwch yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal (LAC) a rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys enghreifftiau o arferion effeithiol. Mae'r cylchlythyr yn dangos bod Sefydliadau Addysg Uwch yn parhau i gynorthwyo rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu i addysg uwch ac yn cynorthwyo yn ystod eu cyfnod mewn sefydliad addysg uwch, mae'n dangos eu bod yn cydweithio â darparwyr a rhanddeiliaid eraill ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac maent yn cyfrannu tuag at ein dull amlasiantaethol o gefnogi rhai sy'n gadael gofal gyda chyfleoedd ym maes addysg a dysgu gydol oes.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried eich awgrym i ddarparu gliniaduron i blant dros 10 oed sy'n derbyn gofal. Rwy'n cytuno bod sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn gwella'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt ond yn gyntaf, mae'n rhaid i ni archwilio materion yn ymwneud ag e-ddiogelwch, yn enwedig i'r unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Fe ysgrifennaf atoch eto unwaith y byddaf wedi derbyn canlyniadau ymchwil fy swyddogion i'r arferion da sy'n bodoli ar hyn o bryd, gwybodaeth ynghylch faint o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a pha fath o adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi menter o'r fath.

Hefyd, byddaf yn anfon copi o'm llythyr at Helen Mary Jones AC er gwybodaeth gan iddi godi'r mater hwn yn ystod sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd ar 26 Mai hefyd.